



Glandŵr Cymru
Canal & River Trust in Wales

## Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte a'r Gamlas

**MWYNHEWCH 11 milltir o dreftadaeth anhygoel - dwy wlad, dau dwnnel a dwy ddyfrbont.**

Mae Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte a'r Gamlas yn ymestyn ar hyd camlas Llangollen o'r Waun i Landysilio ar draws Dyffryn Dyfrdwy. Mae canŵio yn ffordd wych o ddod i adnabod ac edmygu tirwedd unigryw a godidog o ddyfrbontydd, traphontydd a thwneli hirion. Mae Dyfrbont Pontcysyllte yn un o gampweithiau peirianyddol gorau'r rhwydwaith o gamlesi, gyda'i gafn haearn bwrw sydd wedi'i gynnal gan golofnau carreg anferth 39 metr (127 troedfedd) uwchlaw afon Dyfrdwy.

**Rhagor o wybodaeth yn www.canalrivertrust.org.uk neu www.pontcysyllte-aqueduct.co.uk**

## Amdanon ni

Glandŵr Cymru yw'r elusen sy'n gwarchod 2,000 milltir o ddyfrffyrdd am ei bod hi'n dda bod wrth y dŵr. Mae ymchwil yn dangos bod treulio amser wrth y dŵr, yn eich awr ginio, wrth deithio i'r gwaith neu wrth fynd am dro ar y penwythnos, yn gwneud i ni deimlo'n hapusach ac yn iachach. Mae'r ymddiriedolaeth yn gweithio gyda gwirfoddolwyr a chymunedau ledled Cymru a Lloegr i droi camlesi ac afonydd yn llefydd lle mae pobl leol eisiau treulio amser a theimlo'n well, gan gyflwyno cyfleoedd llesiant i filiynau.

**Ymweld. Cyfrannu. Gwirfoddoli**

Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley

# Rhwyfo'n gywir

## ar hyd 11 milltir o dreftadaeth odidog

Mae camlas Llangollen yn lle gwych i ddechreuwyr, grwpiau a theuluoedd neu unrhyw un sy'n chwilio am fynediad hawdd a hwylus, amodau dibynadwy a llond gwlad o bethau i'w gweld. I'r rhai mwy profiadol yn eich plith, mae afon Dyfrdwy yn cynnig ffordd tipyn mwy anturus o fwynhau byd natur. Mae croeso i chi rannu'r Safle Treftadaeth y Byd hwn, ond cofiwch am ddefnyddwyr eraill hefyd. Rydyn ni am i bawb fwynhau'r ardal. I wybod am rwyfo ar hyd ein dyfrffyrdd, ewch i **www.canalrivertrust.org.uk**


© Michael Cole

### Ystyriol o eraill


- Parciwch yn ddigon pell o'r llwybr tynnu a heb achosi rhwystr
- Parchwch ddefnyddwyr eraill a pheidiwch â gwneud gormod o sŵn
- Dilynwch reolau rhwyfo'r dyfrffyrdd gan gadw llygad ar gychod eraill

### Ystyriol o bysgotwyr

- Cofiwch gydweithio â physgotwyr er mwyn osgoi llinynnau, gwialenni a heidiau
- Cadwch at ganol y ddyfrffordd gan deithio ar gyflymder rheolaidd
- Os ydych chi'n teithio mewn criw, cadwch yn agos at eich gilydd a phasio pysgotwyr gyda'ch gilydd

### Mwynhewch y gamlas a chadwch yn ddiogel

- Cofiwch ddweud wrth eraill i ble'r ydych chi'n mynd, a phryd fyddwch chi nôl
- Gofalwch fod y siwrnai o fewn eich gallu
- Peidiwch â rhwyfo ar eich pen eich hun
- Dylai pawb wisgo siaced achub neu gymorth hynofedd a bod â thortsh dal dŵr a chwiban yn sownd iddyn nhw
- Gwnewch yn siŵr fod eich offer yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn barod ar gyfer y dŵr. Gofalwch fod eich cwch yn ddigon ysgafn i gadw uwchben y dŵr pe bai'n troi drosodd
- Cofiwch orchuddio unrhyw friwiau neu gytiau â phlastr dal dŵr, gwisgwch esgidiau addas a cheisiwch osgoi llyncu'r dŵr. Golchwch eich dwylo cyn bwyta
- Am resymau diogelwch – ni chaniateir croesi dyfrbont Pontcysyllte ar fwrdd padlo sefyll i fyny (SUP). Dewch oddi ar y bwrdd padlo, cerddwch ar y llwybr tynnu a thynnwch eich SUP ar draws y tu ôl i fad sy'n croesi. Caniateir i SUP groesi dyfrbont y Waun.


© Michael Cole



### Gwarchod yr amgylchedd naturiol

- Cofiwch asesu'r bywyd gwyllt o'ch cwmpas yn gyson. Os gwelwch chi unrhyw arwyddion o aflonyddu, ewch oddi yna'n ddistaw
- Mae glannau afonydd a chamlesi yn gynefin pwysig i fywyd gwyllt. Ceisiwch osgoi difrodi'r glannau a'u tyfiant trwy osgoi lansio neu lusgo cychod i'r gamlas
- Ewch â'ch sbwriel adre gyda chi

### Edrych – Golchi - Sychu

Mae dyfrffyrdd yn gartref i lawer o rywogaethau goresgynnol ac mae angen i ni eu rhwystro nhw rhag lledaenu lle bo'n bosib. Gallech helpu i atal hyn trwy ddilyn tri cham syml wrth adael y dŵr.

- **Edrych** - edrychwch am organebau byw ar eich offer a'ch dillad, yn enwedig mewn mannau sy'n llaith neu'n anodd eu gweld
- **Golchi** - golchwch a glanhewch eich holl offer, esgidiau a dillad yn drylwyr. Defnyddiwch ddŵr poeth os oes modd. Os dewch chi ar draws unrhyw organebau, gadewch nhw yn y dŵr y daethon nhw ohono
- **Sychu** - sychwch eich holl offer a'ch dillad - gall rhai rhywogaethau fyw am sawl diwrnod dan amodau llaith. Gofalwch nad ydych chi'n trosglwyddo dŵr i fannau eraill



**Oes angen i mi brynu trwydded ar gyfer dyfrffyrdd Glandŵr Cymru?**

Oes, oni bai'ch bod chi'n aelod cyfredol o Canw Cymru neu British Canoeing sy'n cael defnyddio'n dyfrffyrdd am ddim – ewch i **www.britishcanoeing.org.uk** neu **www.canoewales.com** Gallwch brynu trwydded tymor byr o **www.canalrivertrust.org.uk** hefyd.